Arolwg agweddau'r cyhoedd 2024

Animal Welfare. Worldwide.

FOUR PAWS

Eating Better

TAFLEN FFEITHIAU

Cymru

Llai a gwell

Mae 63% yn fodlon bwyta llai o gig

Y tri phrif ysgogydd y tu ôl i leihau faint o gig sy'n cael ei fwyta

yn nodi lles anifeiliaid fel un o'r 3 prif ysgogydd



yn nodi lleihau allyriadau carbon fel un o'r 3 prif ysgogydd

yn nodi arbed arian fel un o'r 3 prif ysgogydd

Mae dros hanner y bobl (51%) yn bwyta llawer o gig, gan fwyta cig o leiaf 5 diwrnod yr wythnos. Bwyta cig dair neu bedair gwaith yr wythnos yw'r dewis mwyaf poblogaidd, sef 28% o'r bobl a gafodd eu holi.



Mae 24% o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn bwyta llai o gig nag yr oeddent flwyddyn yn ôl, ond mae'r rhan fwyaf yn dweud nad yw eu harferion bwyta wedi newid:



Pa gig mae pobl yn ei fwyta amlaf?

67%



Cig gwyn (ee cyw iâr)

19%

Cig coch (ee cig eidion neu gig oen)

12%



Cig wedi'i brosesu (ee selsig neu ham)

2%

Ddim yn gwybod

38%

yn cytuno â'r datganiad: "Mae cynhyrchu a bwyta cig/cynnyrch da byw yn cael effaith negyddol sylweddol ar yr amgylchedd"

Diogeledd bwyd

Yn y cartref

Mae 73% wedi newid eu harferion siopa yn wirfoddol er mwyn arbed arian

Mae 42% wedi gorfod newid y bwyd maen nhw'n ei brynu oherwydd nad oedden nhw'n gallu fforddio eu siopa bwyd arferol

Mae aelod o 19% o gartrefi wedi gorfod methu pryd o fwyd oherwydd nad oedd yn gallu fforddio bwyd

Mae 38% wedi gorfod newid lle maen nhw'n prynu eu bwyd oherwydd nad oedden nhw'n gallu fforddio eu siopa bwyd arferol

Yn Genedlaethol



Mae 66% yn ceisio prynu bwyd sy'n cael ei dyfu neu ei fagu yn y DU



Mae 73% yn credu bod rhaid i ni ddiogelu natur a'r amgylchedd er mwyn cynhyrchu digon o fwyd

Mae 74% yn nodi y dylai'r llywodraeth helpu ffermwyr i adfer byd natur wrth barhau i gynhyrchu bwyd



Mae 61% yn meddwl y bydd cael deiet cynaliadwy yn helpu i sicrhau diogeledd bwyd

Caffael cyhoeddus

Yn meddwl y dylai ysgolion gynnig opsiynau bwyd iachach



Yn meddwl y dylai ysbytai gynnig opsiynau bwyd iachach



Yn meddwl na ddylai cynhwysion sy'n gallu achosi problemau iechyd, er enghraifft cig wedi'i brosesu, gael eu gweini mewn ysbytai ac ysgolion

Mae 84% yn credu bod cael gafael ar fwyd sydd wedi'i dyfu yn y DU ar gyfer ysgolion ac ysbytai yn ffordd dda o gefnogi ein ffermwyr



Mae 69% yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn gweini bwyd a gynhyrchir i safonau lles uwch, ee bwyd maes neu fwyd organig, mewn ysgolion ac ysbytai

Masnach



Mae 48% yn credu y dylai'r DU fewnforio cig a chynnyrch llaeth ond dim ond os yw ei ansawdd mor uchel ag yn y DU ac yn costio llai



Dim ond 4% sy'n credu y dylai'r DU fewnforio cig a chynnyrch llaeth beth bynnag fo'u cost a'u hansawdd

Mae 71% yn credu y dylai'r llywodraeth asesu cytundebau masnach yn y dyfodol ar gyfer eu heffaith ar iechyd pobl a'r amgylchedd

Cymorth i ffermwyr

Byddai 75% yn hoffi gwneud mwy i gefnogi ffermwyr yn y DU

Byddai 76% yn hoffi gwneud mwy i gefnogi ffermwyr sydd â safonau lles anifeiliaid ac amgylcheddol uchel

Mae 83% yn credu y dylai ffermwyr y DU gael cyfran deg o'r pris rydym yn ei dalu am gig a chynnyrch llaeth mewn siopau, caffis a bwytai

Prynu 'gwell'

Mae 48% yn meddwl am les yr anifeiliaid wrth benderfynu pa gig neu gynnyrch llaeth i'w brynu



Mae 57% yn meddwl am les yr anifeiliaid wrth benderfynu pa wyau i'w prynu



Mae 67% yn wynebu rhwystr o ran prynu cig 'gwell'

Mae 69% yn dweud bod cig 'gwell' yn rhy ddrud i'w brynu'n rheolaidd



Mae 63% yn deall manteision magu anifeiliaid dan amodau organig

Mae 56% yn meddwl y byddent yn fwy tebygol o brynu lles uchel pe bai wedi'i labelu'n gliriach

Atodiad

Omnibws Ar-lein. Cafodd yr holl ffigurau, oni nodir yn wahanol, eu casglu a'u cyflenwi gan Savanta. Cyfanswm maint y sampl oedd 1700 o oedolion (N = 500 Lloegr, Yr Alban a Chymru, N = 200 Gogledd Iwerddon). Gwnaed y gwaith maes rhwng 27 Mawrth a 4 Ebrill 2024.

Penderfynwyd ar ymlyniad wrth blaid wleidyddol yn seiliedig ar fwriadau pleidleisio ar yr adeg y casglwyd y data ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024.

Cydnabyddiaethau

Cafodd yr adnodd hwn ei greu ar y cyd rhwng Eating Better a FOUR PAWS UK.

Diolch i:

Myrtle Gregory - Swyddog Ymchwil a Pholisi,, Eating Better

Charlotte Jones - Rheolwr Cyfathrebu, Eating Better

Emily Wilson - Pennaeth Rhaglenni ac Ymgyrchoedd, FOUR PAWS UK

Kayleigh Russell - Arweinydd Cyfryngau Cymdeithasol, FOUR PAWS UK

Andrew Stark - Uwch Reolwr Ymchwil a Pholisi, Eating Better

Diolch yn fawr i CYMEN am gwasanaeth cyfieithu a Sian-Elin Davies am brawfddarllen.